# Y Manteision o Weithio yng Nghyngor Sir y Fflint



2021 - 2024

Cyngor Sir y Fflint
Flintshire County Council

# Y manteision o weithio yng Nghyngor Sir y Fflint

Mae Sir y Fflint wedi ei lleoli mewn man unigryw ac yn borth Cymru - bydd unrhyw un sy'n dod i weithio gyda ni yn darganfod sir hyfryd iawn.

Gallwch archwilio trefi hudolus fel Yr Wyddgrug gyda'i Marchnad Stryd a gŵyl fwyd a diod, Treffynnon, cartref Ffynnon Santes Gwenffrewi, un o Saith Rhyfeddod Cymru, Y Fflint gyda'i chastell a'i marchnad ganoloesol a Chaerwys, a ystyrir i fod yn un o'r trefi lleiaf sydd â Siarter Frenhinol.

Mae llawer o safleoedd o ddiddordeb hanesyddol fel adeilad rhestredig Gradd 1 Llyfrgell Gladstone ym Mhenarlâg. Llyfrgell breswyl orau Prydain, cafodd ei sefydlu gan y Gweinidog William Gladstone yn 1889. Ymwelwch ag Abaty Sistersaidd Dinas Basing ochr yn ochr â Pharc Treftadaeth Dyffryn Maes Glas, cymysgedd diddorol o felinau a chronfeydd yn olrhain y gorffennol diwydiannol.

Os ydych yn chwilio am wyliau traeth, penwythnos i ffwrdd, ychydig o therapi siopa neu ddiwrnod allan gyda'r teulu, yna dechreuwch ddarganfod Sir y Fflint yma.

http://www.discoverflintshire.com

Rydym yn ymfalchïo ein bod yn gwella ein gwasanaethau yn barhaus. Fel cyflogwr, rydym yn cydnabod mai ein hased mwyaf gwerthfawr yw ein pobl. Rydym yn ymdrechu i fod yn gyflogwr delfrydol trwy ddarparu ystod o fuddion sy'n ein helpu i ddiogelu diddordeb ein gweithwyr a'u cymell i wasanaethu dinasyddion Sir y Fflint.

Mae perfformiad a datblygiad ein gweithwyr yn cael ei reoli drwy broses reoli perfformiad, sy'n canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau, gwybodaeth, cyfleusterau a chymwyseddau sydd wedi eu canoli ar Fframwaith Cymhwysedd ymddygiad Sir y Fflint sy'n cefnogi amcanion allweddol y Cyngor. Yn y pen draw, rydym yn cydnabod y bydd gweithwyr datblygedig, sydd â'r offer iawn, ac yn fodlon, yn rhoi'r gwasanaeth gorau i ddinasyddion Sir y Fflint ac i'r rhai hynny sy'n byw ac yn gweithio yn y Sir.

## Cyfle cyfartal

Mae sicrhau amrywiaeth yn y gweithle yn bwysig i ni. Nid yw'n golygu cydymffurfio gyda'r ddeddf yn unig, mae'n golygu cydnabod a gwerthfawrogi gwahaniaethau eraill a thrin eraill

yn deg. Rydym eisiau cydnabod gwerth pawb waeth beth yw eu hoedran, anabledd, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd neu gredo a sicrhau cydraddoldeb ar draws pob maes. Rydym eisiau parchu eraill, a bod yn gyflogwr sensitif a deallgar. Pan fydd pobl yn gallu bod yn nhw eu hunain, maent yn perfformio yn well ac mae hyn yn ein helpu ni i adlewyrchu'r gymuned a wasanaethwn yn well.

Mae Cyngor Sir y Fflint yn falch o fod yn gyflogwr 'Hyderus o ran Anabledd' Cofrestredig ac yn falch o fod wedi gweithio gyda'r Gymdeithas Alzheimer i hyfforddi aelodau o staff er mwyn sicrhau ein bod yn weithlu sy'n Cefnogi Pobl â Dementia.

Mae Cyngor Sir y Fflint hefyd yn gweithio gyda Stonewall Cymru lle maent wedi cefnogi'r Cyngor mewn nifer o fentrau a phrosiectau i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth o fewn ein Sefydliad.

## Cynllun Gwarantu Cyfweliad

Mae'r Cyngor yn gweithredu Cynllun Gwarantu Cyfweliad. Rhaid i bob ymgeisydd sydd â nodwedd a ddiffinnir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac sy'n hysbysu'r Cyngor wrth wneud cais ac sy'n cwrdd â meini prawf y swydd gael cynnig cyfweliad. Mae hyn yn unol â'r Cynllun 'Hyderus o ran Anabledd'.

## Cynllun Gwarantu Cyfweliad i Gyn-Filwyr

Mae Cyngor Sir y Fflint wedi cyflwyno cynllun gwarantu cyfweliad i Gyn-Filwyr y Lluoedd Arfog. Mae'r cynllun yn cefnogi'r addewidion yn y Cyfamod Cymunedol. Cynigir cyfweliad wedi ei warantu i bob cyn-filwr, yn amodol ar gwrdd â'r meini prawf canlynol:

- Y Lluoedd Arfog oedd cyflogwr hirdymor olaf y cyn-filwr.
- Nid oes mwy na 3 blynedd wedi pasio ers i'r cyn-filwr adael y Lluoedd Arfog.
- Mae'r Cyn-Filwr yn cwrdd â'r meini prawf hanfodol ar gyfer y swydd sy'n cael ei hysbysebu.

## Gwyliau Blynyddol a Gwyliau Cyhoeddus

Mae Cyngor Sir Y Fflint yn hyrwyddo cydbwysedd bywyd a gwaith iachus ac yn cydnabod pwysigrwydd gwyliau blynyddol wrth gyflawni hyn.

Mae'r hawl i weithwyr ar y Cydgyngor Cenedlaethol ar gyfer Gweithwyr Llywodraeth Leol (Llyfr Gwyrdd),

- Ar eu penodiad i'r Cyngor — 24 diwrnod (8 Gwyliau Banc)
- Ar ôl 5 mlynedd o Wasanaeth Di-dor — 28 diwrnod (8 Gwyliau Banc)
- Ar ôl 10 mlynedd o Wasanaeth Di-dor — 29 diwrnod (8 Gwyliau Banc)
- Ar ôl 15 mlynedd o Wasanaeth Di-dor — 30 diwrnod (8 Gwyliau Banc)
- Ar ôl 20 mlynedd o Wasanaeth Di-dor — 31 diwrnod (8 Gwyliau Banc)

Cyfrifir gwyliau blynyddol a gwyliau banc gweithwyr rhan-amser ar sail pro rata.

Yr hawliau i gyflogeion ar Gyd-Gyngor Cenedlaethol i Lywodraeth Leol – <u>Pwyllgor Soulbury (Llyfr Glas) yw:</u>

- Ar eu penodiad i'r Cyngor — 23 diwrnod (8 Gwyliau Banc)
- Ar ôl 5 mlynedd o Wasanaeth Di-dor — 28 diwrnod (8 Gwyliau Banc)
- Ar ôl 10 mlynedd o Wasanaeth Di-dor — 29 diwrnod (8 Gwyliau Banc)
- Ar ôl 15 mlynedd o Wasanaeth Di-dor — 30 diwrnod (8 Gwyliau Banc)
- Ar ôl 20 mlynedd o Wasanaeth Di-dor — 31 diwrnod (8 Gwyliau Banc)

## Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Fe fydd yr holl gyflogeion yn cael eu cofrestru dan gontract i gynllun pensiwn ar ddiwrnod 1 neu pan ddônt yn gymwys, cyn belled â bod yna gytundeb cyflogaeth sydd am o leiaf 3 mis. I gytundebau llai na 3 mis, fe all cyflogeion 'optio i mewn' i'r cynllun.

<u>10 rheswm dros ymuno â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol</u>

1) Mae'ch pensiwn yn cael ei danysgrifennu gan y Llywodraeth, sy'n golygu ei fod yn warantedig gan y gyfraith
2) Gostyngiad yn y dreth, mae'ch tâl yn cael ei drethu ar ôl i'ch cyfraniadau gael eu didynnu
3) Cynnydd bob blwyddyn yn unol â Mynegai Prisiau Defnyddwyr
4) Pensiynau ar gael i'ch priod sy'n fyw, partner sifil cofrestredig, partner sy'n cydfyw a phlant ar eich marwolaeth
5) Mae'r grant marwolaeth yn daladwy ar ôl i chi farw i'r unigolyn/ion yr ydych wedi eu henwebu

6) Opsiwn i greu/hybu eich cyfandaliad di dreth drwy gyfnewid pensiwn pan ydych yn ymddeol
7) Taladwy am oes ar ôl i chi ymddeol a bydd yn cynyddu yn unol â chostau byw
8) Gallwch ymddeol yn gynnar o 55 oed ymlaen os oeddech yn aelod cyn 01/04/2014
9) Ymddeoliadau ar sail afiechyd, hyblyg, diddymu swydd ac effeithlonrwydd ar gael hefyd.
10) Opsiwn i gynyddu'ch pensiwn neu hyd yn oed ostwng eich cyfraniadau yn y cynllun 50/50

Gallwch ddarllen mwy am y cynllun yn http://www.clwydpensionfund.org.uk/cy/Home/Home.aspx

## Cynllun AVC Rhannu Cost

Mae Cyngor Sir y Fflint nawr yn cynnig mynediad i aelodau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i gynllun Cyfraniad Gwirfoddol Ychwanegol drwy Rannu Cost (AVC Rhannu Cost), a gynhelir gan ein partneriaid AVC Wise.

Mae Cyfraniad Gwirfoddol Ychwanegol safonol yn ffordd treth-effeithiol i gynilo ar gyfer ymddeol ac mae'n rhoi cyfle i chi ychwanegu at eich Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i greu cronfa ymddeol ychwanegol. Maent ar gael ac yn fuddiol i chi, pa mor bynnag bell neu agos ydych at ymddeol.

Darllenwch fwy ar www.avcwise.co.uk

## Tâl Salwch Galwedigaethol

Os ydych chi'n sâl, rydym yn gweithredu Cynllun Tâl Salwch Galwedigaethol, lle gallwch dderbyn cyflog llawn neu hanner cyflog, yn ddibynnol ar hyd eich gwasanaeth hyd at 26 wythnos yn ogystal â'ch hawl am Dâl Salwch Statudol.

Rydym yn gweithredu Polisi Rheoli Presenoldeb, sy'n anelu i gefnogi a helpu unigolion tra yn y gwaith, ar absenoldeb salwch ac wrth ddychwelyd i'r gwaith.

## Cydbwysedd Bywyd a Gwaith

Er mwyn eich helpu i gydbwyso gofynion gwaith a chartref, mae gennym ni ystod o opsiynau gweithio'n hyblyg gan gynnwys:

- Rhannu Swydd
- Gweithio Oriau Llai a Rhan Amser

- Cytundebau Amser-Tymor
- Oriau cywasgedig

Mae gennym ystod o bolisïau gan gynnwys:

- Darpariaethau Cyfeillgar i'r Teulu, gan gynnwys Mamolaeth, Tadolaeth, Mabwysiadu, Absenoldeb Rhiant ac Absenoldeb Rhiant A Rennir.
- Gweithio'n Hyblyg
- Absenoldeb Arbennig, gan gynnwys amser i ffwrdd ar gyfer argyfyngau a phrofedigaethau.
- Gweithio Hyblyg
- Gweithio a Gofalu

## Undeb Credyd Sir y Fflint

Gallwch ymuno ag un o undebau Credyd Sir y Fflint, sy'n gydweithfa ariannol nid-er-elw. Maent yn darparu amrywiaeth o wasanaethau ariannol cystadleuol gan gynnwys cyfrifon cyfredol, cynilion, morgeisi, benthyciadau a gwasanaethau yswiriant.

Gyda thaliadau'n cael eu cymryd yn uniongyrchol o'ch cyflog, gall fod yn haws delio gyda'ch arian. Gallwch ddarllen mwy am yr Undebau Credyd trwy ddilyn y dolenni canlynol.

Undeb Credyd Cambrian - https://www.cambriancu.com/en/

## eWobrau Cyngor Sir y Fflint

Mae eWobrau yn rhaglen fuddion unigryw i weithwyr Cyngor Sir y Fflint, sy'n cynnig ystod o arbedion ffantastig.

## Cerdyn a hwb eWobrau Vectis

Bydd cyflogeion parhaol yn derbyn Cerdyn Vectis Sir y Fflint pan fyddant yn ymuno gyda'r Cyngor ac yn cael mynediad i'r HWB, lle mae miloedd o gynigion a buddion ar gael, allai arbed cannoedd ar eich siopa o ddydd i ddydd, costau moduro a gwariant iechyd a lles.

Gallwch wneud arbedion trwy ddefnyddio gostyngiadau ar-lein, talebau anrheg, taliad arian-yn-ôl a gostyngiadau o fewn siop gyda'ch Cerdyn Vectis. Mae hyn yn cynnwys siopau'r stryd fawr, gostyngiadau sinemâu a bwytai ac arian ar gyfer moduro, yswiriant, gwestai a gwyliau.

Yn ogystal ag arbedion ffordd o fyw, gallwch hefyd gael help ar gyfer costau gyda'ch cynlluniau aberthu cyflog. Yn syml, byddwch yn hepgor cyfran o'ch cyflog (sydd wedi ei eithrio o Yswiriant Cenedlaethol a Threth) sy'n golygu y byddwch yn derbyn buddion gwych heb fod yn arian parod.

## Beicio i'r Gwaith – Aberth Cyflog

Mae'r cynllun beicio i'r gwaith yn fenter aberthu cyflog sydd wedi ei chymeradwyo gan y Llywodraeth sy'n eich galluogi i drefnu cytundeb hurbwrcasu i gael beic ac ategolion i'r diben o feicio i'r gwaith. Does dim treth ac yswiriant cenedlaethol i'w dalu ar y llog, sy'n golygu y gallwch wneud arbedion, wrth gadw'n ffit, gan leihau eich ôl troed carbon a threulio llai o amser yn eich car. Mae'r cynllun yn cynnig mynediad i gannoedd o brif frandiau o dros 465 o siopau Halfords, siopau Cycle Republic a dros 860 o siopau beics annibynnol.

## Iechyd a Lles

Mae adran Iechyd Galwedigaethol Sir y Fflint wedi ymrwymo i hyrwyddo diwylliant lle mae iechyd corfforol a lles seicolegol staff yn cael ei barchu, ei amddiffyn a'i wella.

Mae'r Adran Iechyd Galwedigaethol yn wasanaeth wedi ei arwain gan nyrsys ac mae ein tîm yn cynnwys Ymarferwyr Iechyd Galwedigaethol Arbenigol cymwysedig a Nyrsys Iechyd Galwedigaethol sy'n cynghori ar bob mater sy'n ymwneud ag effaith yr amgylchedd waith ar iechyd a'r dylanwad mae iechyd gweithiwr yn ei gael ar eu gallu i gyflawni eu swyddogaethau. Hefyd, rydym yn trefnu gwasanaethau arbenigol i gefnogi lles corfforol a meddyliol gan gynnwys mynediad at ffisiotherapi a gwasanaethau cwnsela.

## Rhaglen Defnydd Cartref Microsoft

Trwy ein Trefniant Menter gyda Microsoft, mae gan weithwyr y Cyngor yr hawl i brynu Microsoft Office ar bris isel o £9.95 ar gyfer defnydd cartref/personol. Gall unigolion sy'n gymwys brynu trwydded sengl ar gyfer Office Professional Plus 2016 neu Office i Mac 2016. Mae'r drwydded yn caniatáu i weithwyr lawrlwytho a gosod Office ar un peiriant.

## Vodaphone Advantage

Mae Cyngor Sir y Fflint wedi creu partneriaeth gyda Vodaphone i gynnig arbedion i weithwyr ar sypiau talu'n fisol Vodaphone.

Gallwch ddarganfod mwy trwy ddilyn y ddolen ganlynol:

https://advantage.vodafone.co.uk/

## Polisi sy’n Cefnogi Pobl Sy’n Maethu

Mae Cyngor Sir Y Fflint yn awyddus i gefnogi gweithwyr sy’n ddarpar ofalwyr maeth a chefnogi'r rhai hynny sy’n darparu gofal eisoes trwy roi amser i ffwrdd lle bo'r angen. Gellir caniatáu hyd at 5 diwrnod o wyliau ychwanegol gyda chyflog, gyda hyblygrwydd cynyddol i gefnogi'r broses.

## Rhaglen Cymorth I Weithwyr

Gyda phwysau cynyddol yn y gwaith ac adref, mae yna adegau lle mae angen cymorth ychwanegol arnom i gyd i sicrhau cydbwysedd mewn bywyd bob dydd. Dyma pam mae Cyngor Sir y Fflint wedi dewis darparu Rhaglen Cymorth i Weithwyr cyfrinachol am ddim i’w holl weithwyr.

Y cyngor fydd yn talu am eich Rhaglen Cymorth i Weithwyr fel gwasanaeth cefnogi i chi fel gweithiwr, ac felly mae’n rhad ac am ddim i chi ei ddefnyddio. Darparwr annibynnol sy’n ei ddarparu, mae ar gael 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos, 365 diwrnod y flwyddyn, a hynny dros y ffôn neu ar-lein.

Mae’r rhaglen wedi ei chynllunio i'ch helpu gydag ystod eang o faterion yn ymwneud â’r gwaith, teulu neu faterion personol. O sicrhau cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith i wybodaeth ar ofal plant, perthnasoedd, materion yn ymwneud â’r lle gwaith a iechyd a lles, gadewch i'ch Rhaglen Cymorth i Weithwyr eich cefnogi ar y materion sy’n ein heffeithio ni i gyd ar ryw bwynt yn ein bywydau. Mae’r pynciau yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i:

| | |
|---|---|
| • Cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith<br>• Perthnasoedd<br>• Gwybodaeth ar ofal plant<br>• Iechyd a lles<br>• Dyled<br>• Anabledd a salwch<br>• Gofalwyr<br>• Profedigaeth a cholled<br>• Straen<br>• Tueddfryd rhywiol | • Gwybodaeth ar ofal i bobl hŷn<br>• Digwyddiadau mewn bywyd<br>• Mewnfudo<br>• Gorbryder ac iselder<br>• Materion teulu<br>• Bwlio ac aflonyddu<br>• Addysg<br>• Hawliau defnyddwyr<br>• Pwysau yn y gweithle<br>• Hunaniaeth o ran rhywedd |

## Rheoli Anghenion Gofalwyr

Mae Cyngor Sir y Fflint yn cydnabod y gallai fod gennych gyfrifoldebau gofalu sy'n cael effaith sylweddol ar eich bywyd y tu allan i'r gwaith. Mae ein polisi Rheoli Anghenion Gofalwyr yn darparu cymorth i ofalwyr i helpu i sicrhau cydbwysedd rhwng ymrwymiadau y tu allan i'r gwaith.

## Seibiant Gyrfa

Mae'r Cyngor yn cydnabod y gallwch fod angen cyfnod o amser o'r gwaith, i'w ddefnyddio ar gyfer teithio, anghenion gofal hirdymor, gwaith gwirfoddol neu i bwrpasau addysgol. Cyfeiriwch os gwelwch yn dda at bolisi Seibiant Gyrfa'r Cyngor.

Yn gyffredinol, mae Cyngor Sir Y Fflint yn lle gwych i weithio, sy'n cynnig ystod eang o fuddion i weithwyr. Mae rhagor o wybodaeth ar gael trwy gysylltu gyda Gwasanaethau Cyflogaeth. Pob lwc gyda'ch cais!